**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU 2022 - 2027**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022 - 2027 a gynhaliwyd Dydd Mercher, 3 Mai 2023 am 5.00 pm ym Rhithwir.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Roedd y Cynghorwyr canlynol, sy'n Aelodau o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu 2022-2027, yn bresennol**

Y Cynghorydd J Edwards (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd J Brencher | Y Cynghorydd M Ashford |
| Y Cynghorydd J Bonetto | Y Cynghorydd S Evans |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd C Middle |
| Y Cynghorydd S Morgans | Y Cynghorydd G L Warren |
| Y Cynghorydd K Webb | Y Cynghorydd G E Williams |

**Swyddogion yn bresennol:**

Mr C Hanagan – Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mrs Sarah Daniel – Blaen Swyddog Materion Democrataidd a Chraffu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd Sera Evans
Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd K Morgan

## 67 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

## 68 COFNODION

**PENDERFYNWYD:** Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023 eu cadarnhau'n gofnod cywir o'r cyfarfod.

## 69 DOLENNI YMGYNGHORI

Cyfeiriodd y Blaen Swyddog Craffu at yr ymgynghoriadau agored y mae modd i'r Aelodau gyfrannu atyn nhw. Fe aeth hi hefyd ati i atgoffa'r Aelodau bod croeso iddyn nhw gysylltu â'r garfan gan ddefnyddio'r Mewnflwch Craffu os oes gyda nhw unrhyw gwestiynau.

## 70 ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A CHRAFFU

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu mai nod cynnwys yr eitem ar yr agenda oedd ceisio barn Aelodau'r Pwyllgor mewn perthynas â fformatio, cynnwys a dull y mecanweithiau adrodd blynyddol. Roedd cyhoeddi adroddiadau blynyddol y pwyllgorau craffu yn ofyniad yng Nghyfansoddiad y Cyngor. O ganlyniad i hyn, roedd cyfle i bob Aelod drafod yr adroddiadau blynyddol hynny a gafodd eu gosod ger bron y Cyngor llawn, yn ogystal â chyfle i dynnu sylw at rôl bwysig gwaith craffu o ran materion a phynciau amrywiol dros flwyddyn y Cyngor.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu 2022-23 a'i osod ger bron y Cyngor.

2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i ymgynghori â Chadeiryddion y pwyllgorau craffu thematig priodol i gadarnhau cynnwys eu hadroddiadau blynyddol unigol cyn eu gosod ger bron y Cyngor.

**71 ARGYMHELLION YR ADOLYGIAD ANNIBYNNOL O'R FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybod i Aelodau am yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag argymhellion yr adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol yng Nghymru (adroddiad Richard Penn).

Rhoddwyd gwybod i Aelodau y cafodd adolygiad annibynnol o'r Fframwaith ei gynnal gan Richard Penn rhwng mis Ebrill a Gorffennaf 2021 i asesu a yw'r Fframwaith yn parhau i fod yn addas i'r diben. Roedd yr adolygiad wedi ystyried y gofynion deddfwriaethol newydd sydd wedi'u nodi yn Neddf 2021 a chynnwys y polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth presennol.

Nododd y Cyfarwyddwr, ers cyhoeddi'r adolygiad, fod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid gan gynnwys swyddogion monitro, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'i swyddfa, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru. Aethon nhw hefyd i wrando ar y drafodaeth ar argymhellion yr Adolygiad yng Nghynhadledd Safonau Cymru Gyfan ym mis Chwefror 2022.

Rhoddwyd gwybod i Aelodau y cafodd yr ymgynghoriad yma ei drafod gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor (yn unol â'i gylch gorchwyl) mewn cyfarfod ar 25 Ebrill 2023 a bydd ymateb ar wahân yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ymatebion a gytunwyd gan y Pwyllgor hwnnw.
Fe wnaeth yr Aelodau y sylwadau canlynol:

Roedd Aelodau o blaid diweddaru'r rheoliadau i gynnwys safoni trothwy ar gyfer datgan anrhegion a lletygarwch, a hynny er mwyn cefnogi tryloywder mewn Llywodraeth Leol.

Roedd yr Aelodau o blaid cael gwared ar y gofyniad i ddatgelu cyfeiriadau personol ar ffurflenni Datganiad o Fuddiannau Aelodau unigol sy'n cael eu cyhoeddi, a hynny er mwyn cefnogi diogelwch Aelodau.

Cytunodd Aelodau y dylai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru lunio canllawiau ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, o ystyried y cynnydd yn nifer y defnyddwyr a'u pwysigrwydd ymhlith Cynghorau a'r cyhoedd.

Roedd Aelodau o blaid y ffaith y dylai pob Awdurdod Lleol fod eisiau sicrhau bod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo felly mae ychwanegu nodweddion gwarchodedig yn ddull synhwyrol.

Roedd Aelodau o blaid cael gwared ar gyfyngiad sy'n nodi nad oes modd i hen weithwyr Cynghorau fod yn aelod o Bwyllgorau Safonau mewn awdurdod lle cawson nhw eu cyflogi. Byddai cael gwared ar y cyfyngiad yma yn cefnogi Pwyllgorau Safonau i ddenu ymgeiswyr posibl o safon uchel i fod yn aelod o'r Pwyllgor.

Roedd Aelodau o'r farn bod gofyniad i Gynghorwyr o bob Prif Cyngor, Cyngor Tref a Chyngor Cymuned dderbyn hyfforddiant gorfodol ar y Cod Ymddygiad yn hanfodol, gan nodi y dylai Aelodau o'r Senedd gwblhau'r hyfforddiant hefyd ac y byddai modd cysylltu'r hyfforddiant â chymhwyster i ddenu rhagor o aelodau iau i'r rolau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** awdurdodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol i ddarparu adborth Aelodau mewn perthynas â'r ymgynghoriad er mwyn cyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru cyn iddo ddod i ben ar 23 Mehefin 2023.

**72 MATERION BRYS**

DIM

**73 ADOLYGIAD Y CADEIRYDD A DOD Â'R CYFARFOD I BEN**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.25 pm**

**Y Cynghorydd J Edwards**
**Cadeirydd.**

Tudalen wag